

## Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu

### Y Sector Digwyddiadau – 8 Chwefror 2024

#### Holi ac Ateb

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar 'Sector Digwyddiadau'. Rydym wedi grwpio'r cwestiynau hyn yn ôl thema; weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Gallwch wylio'r gweminar a gweld y sleidiau yma: [Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau \(wrapcymru.org.uk\)](https://wrapcymru.org.uk)

Cod Ymarfer: [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](https://wrapcymru.org.uk)

Mae adnoddau ar gael yma i'ch helpu i baratoi: [Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd \(wrapcymru.org.uk\)](https://wrapcymru.org.uk)

Cwestiwn	Ateb
O ble ydych chi'n dod o hyd i'r deunyddiau topio biniau y gellir eu glanhau â chlwt, gan fy mod yn amau y bydd llawer o alw am y mathau hyn o bethau, a lapio biniau, caeadau sy'n agor yn arbennig, ac ati.	Cafodd y 'topiwr' a ddangoswyd yng nghyflwyniad Andy eu dylunio a'u prynu fel rhan o Brosiect Ailgylchu Digwyddiadau Cymru. Anfonwch ebost at <a href="mailto:walesrecycles@wrap.org.uk">walesrecycles@wrap.org.uk</a> am fwy o wybodaeth.
<b>Halogiad a gorfodi</b>	
A ellir symud y gwaith didoli a'i wneud oddi ar y safle?	<p>Gellir, ond bydd angen i chi gael nodiadau trosglwyddo gwastraff (WTN) ar gyfer unrhyw wastraff a symudir oddi ar y safle, hyd yn oed os mai dim ond ar gyfer didoli y caiff ei gludo.</p> <p>Os byddwch yn ei symud eich hun, efallai y bydd angen trwydded cludwr gwastraff arnoch hefyd ac efallai y bydd angen i chi gofrestru eithriadau ar gyfer y gweithgaredd didoli.</p> <p><a href="#">Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestru neu adnewyddu fel cludwr, brocer neu ddeliwr gwastraff</a></p> <p>Sylwer, ni all y gwastraff gael ei symud gan drydydd parti (fel eich casglwr gwastraff) heb gael ei wahanu i'r ffrydiau gofynnol yn gyntaf.</p> <p>Rhaid ei gyflwyno i'r contractwr gwastraff ar wahân yn unol â Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 (ac fel yr eglurir yn y Cod Ymarfer).</p>

	<p>Mae'r gofyniad i wahanu ar y pwynt cyflwyno gan gasglwr gwastraff. Cyfeiriwch at Cod Ymarfer 5.12 – 5.22 ac 8.11 – 8.13 am ganllawiau i'r rhai sy'n trin.</p>
<p>Cwestiwn i Andy Fryers, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Gŵyl y Gelli, ynghylch astudiaeth achos Gŵyl y Gelli: A ydych yn mesur halogiad, ac a oes gennych unrhyw awgrymiadau da i leihau hyn?</p>	<p>Atebodd Andy Fryers: Ydym, rydym yn monitro hynny. Fy nghynghorion i yw lleihau'r amrywiaeth o eitemau sy'n mynd i mewn i'r ffrwd wastraff, sicrhau bod eich holl arwyddion biniau yn glir iawn gyda chymysgedd o luniau a geiriau, a byddwch yn barod i ddi-doli eich gwastraff yng nghefn y tŷ.</p>
<p>Cwestiynau i Andy Fryers, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Gŵyl y Gelli, ynghylch astudiaeth achos Gŵyl y Gelli: Sut ydych chi'n rheoli halogiad ailgylchu mewn digwyddiad os nad oes gennych chi'r adnoddau i ddi-doli eich hun? Byddai'n andros o waith mawr!</p>	<p>Atebodd Andy Fryers: Mae'n rhaid i chi gael criw i wneud hyn, naill ai'n gyflogedig neu wirfoddolwyr. Gallwch leihau halogiad trwy reoli biniau'n dda, ond nid oes modd ei osgoi'n llwyr.</p>
<p>Cwestiynau i Andy Fryers, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Gŵyl y Gelli, ynghylch astudiaeth achos Gŵyl y Gelli: Pwy ydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer didoli yng nghefn y tŷ?</p>	<p>Atebodd Andy Fryers:</p> <p>Rydyn ni'n defnyddio criw cyflogedig.</p>
<p>Pan fo biniau awyr agored wedi'u halogi, byddai'r rhain fel arfer yn cael eu casglu a'u codi fel gwastraff na ellir ei ailgylchu, oni bai bod rhywun yn fodlon eu hail-ddidoli. A yw'r rheoliadau newydd yn awgrymu y bydd hyn yn drosedd i drefnydd y digwyddiadau a'n tîm ailgylchu masnachol?</p>	<p>Mae Adran 7.7 o'r Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o wybodaeth am halogiad.</p> <p>Mae angen i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y deunydd a gesglir mor heb ei halogi â phosibl. Fodd bynnag, os bydd biniau'n cael eu halogi'n fawr, bydd angen i chi drafod hyn gyda'ch casglwr gwastraff.</p> <p>Dylech hefyd adolygu beth arall y gallwch ei wneud i wella cydymffurfiaeth â'r gofynion gwahanu.</p>
<p>Os ydych yn casglu o ŵyl awyr agored, sut y gallwch fonitro miloedd o bobl yn rhoi eu gwastraff yn y ffrydiau gwastraff cywir? Ac a ddylem ni fod yn casglu o hyd os yw'r rhain wedi'u halogi?</p>	<p>Atebodd Andy Fryers:</p> <p>Un opsiwn yw y gallech gael staff ym mhob bin i gynghori/cyfarwyddo defnyddwyr, a/neu ddi-doli pob bin/bag yn ôl y tŷ.</p> <p>Mae'n bwysig hefyd i chi gael arwyddion clir, bydd angen i chi sicrhau bod y biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, bod y system ailgylchu sydd ar waith yn cael ei chyfleu i staff ac ymwelwyr a bod digon o gynwysyddion yn cael eu darparu i'ch staff a'ch gwesteion eu defnyddio'n gywir.</p>

	<p>Fe'ch cynghorir i fonitro effeithiolrwydd eich system ailgylchu a gwneud unrhyw newid sydd ei angen i sicrhau ei bod yn gweithio'n dda.</p> <p>Fe'ch cynghorir i siarad â'ch casglwr gwastraff ynghylch goddef halogiad a'r gweithdrefnau sydd ganddo ar gyfer ymdrin â halogiad.</p> <p>Mae'r <a href="#">Cod Ymarfer</a> (paragraff 7.37) yn cynnwys mwy o fanylion am y camau y cynghorir chi i'w cymryd mewn perthynas â halogiad.</p>
<b>Contractwyr</b>	
A oes rhestr o gwmnïau rheoli gwastraff sydd wedi ymrwmo i ymdrin â'r rheoliadau newydd?	Bydd yn rhaid i bob casglwr gwastraff sy'n gweithredu yng Nghymru gydymffurfio â'r rheoliad newydd hwn. Wrth drafod gwasanaeth neu gontract gyda chasglwr gwastraff presennol neu newydd, dylech wirio eu bod yn cydymffurfio i fod yn sicr. Fodd bynnag, fel yr eglurir yn y Cod, nid oes rhaid iddynt ddarparu gwasanaeth ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff a wahanwyd. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth llawn i gasglu'r holl ddeunyddiau ar wahân.
<b>Deunydd pacio bwyd a gwastraff bwyd</b>	
Allwch chi roi cwpanau/platiau/bagiau/bagiau/ac ati y gellir eu compostio mewn ffrydiau deunydd sy'n cael eu trin gan dreuliad anaerobig?	Na, ni ellir prosesu cynwysyddion y gellir eu compostio trwy dreulio anaerobig ac felly byddent yn halogydd. Am restr fanwl o eitemau y dylid ac na ddylid eu gwahanu ar gyfer ailgylchu gweler Atodiadau 1-6 y Cod.
Rydym yn fenter gymdeithasol sy'n rheoli parcdiroedd mynediad cyhoeddus, sy'n cynnwys manau ar gyfer digwyddiadau. Rydym yn aml yn galluogi trefnwyr digwyddiadau, yn hytrach na chyflwyno digwyddiadau ein hunain. A oes briff y gallwn ei ychwanegu at ein ffurflen archebu i helpu trefnwyr digwyddiadau i ddeall y gofynion ar gyfer y dyfodol, ar gyfer pecynnau bwyd a diod yn bennaf?	Nid oes templed o hwn ar gael ar hyn o bryd, ond mae'n rhywbeth y bydd WRAP Cymru yn edrych ar ei ddatblygu. Mae'n syniad da cytuno ymlaen llaw gyda threfnwyr digwyddiadau sut a phwy sy'n mynd i drin gwaredu gwastraff.
Ar hyn o bryd gellir trin deunyddiau pacio untro ardystiedig y gellir eu compostio (BS EN13432) fel Compostio Caeddig (IVC) ond nid fel treuliad anaerobig (AD). Ble byddai deunydd pacio o'r fath yn mynd yn y dyfodol?	Os na all eich gwasanaeth casglu gwastraff bwyd brosesu pecynnau gwasanaeth bwyd y gellir eu compostio, bydd yn rhaid i'r eitemau hyn fynd i'r ffrwd gwastraff na ellir ei ailgylchu.
Cwestiwn i Andy Fryers: Oes angen darparwr arbennig arnoch i gymryd eich platiau compostadwy?	Atebodd Andy Fryers: Anfonwyd yr eitemau hyn at gwmni yn Henffordd sy'n gallu prosesu platiau y gellir eu compostio.

	<p><b>Gwybodaeth ychwanegol:</b> Cafodd platiau plastig untro (mae hyn yn cynnwys platiau papur ag arwyneb plastig wedi'i lamineiddio) eu gwahardd yng Nghymru ar 1 Hydref 2023. I gael arweiniad pellach ar hyn, cyfeiriwch at y canllawiau; <a href="#">Cynhyrchion plastig untro: canllawiau statudol   LLYW.CYMRU</a></p>
<p>Rydym yn atyniad i ymwelwyr / sw yn hytrach na digwyddiad. Mae gennym gaffis sy'n cynnwys opsiynau tecawê. Mae gennym rai biniau gwastraff tir awyr agored ar gyfer ein hymwelwyr a gafodd eu didoli yn hanesyddol gan ein contractwyr, ond nid yw hyn yn bosibl mwyach. A fyddai'n rhaid i ni ddarparu pedwar bin (un ar gyfer bwyd, dau ar gyfer ailgylchu, ac un ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu) ym mhob man allanol lle mai dim ond un bin sydd ar hyn o bryd? Nid ydym yn caniatáu gwydr ar y safle am resymau iechyd a diogelwch.</p>	<p>Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob safle annomestig, felly byddai hynny'n cynnwys atyniad ymwelwyr / sw. Mae'n ofynnol i bob eiddo sydd wedi'i rwymo gyflwyno'r deunyddiau rhestredig ar wahân i'w hailgylchu. Mater i bob eiddo yw penderfynu sut y gallant wahanu'r deunyddiau hyn yn fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, gall cael biniau ailgylchu wrth ymyl biniau sbwriel fod yn ffordd dda o wneud hyn.  Ni fyddai dim ond casglu'r holl wastraff mewn bin sbwriel gweddilliol a gwneud unrhyw ymdrech i wahanu'r deunyddiau gofynnol ar gyfer ailgylchu yn y man cyflwyno ar gyfer eu casglu yn cyd-fynd â'r rheoliadau newydd.  Nid yw'r rheoliadau'n nodi'r gofynion ar gyfer cyfluniadau biniau. Y gofyniad yw mai dim ond ar y pwynt cyflwyno y mae angen gwahanu (cyfeiriwch at baragraffau 7.14 – 7.16 yn y Cod Ymarfer).</p>
<p>Os ydych yn cynhyrchu llai na 5kg o wastraff bwyd, a ddylid rhoi gwastraff bwyd yn y ffrwd gwastraff na ellir ei ailgylchu?</p>	<p>Os ydych yn cynhyrchu llai na 5kg o fwyd bob cyfnod o 7 diwrnod, yna gellir ei roi yn y ffrwd gwastraff na ellir ei ailgylchu. Fodd bynnag, gallwch barhau i ddewis cael casgliad ailgylchu gwastraff bwyd os dymunwch.  Os nad ydych yn cynhyrchu dros 5kg yr wythnos, yna dylid monitro hyn i ystyried unrhyw newidiadau. Er enghraifft, gallai'r pwysau hwn newid oherwydd cynnydd mewn lefelau staffio neu nifer ymwelwyr.  Cyfeiriwch at baragraff 8.6 yn y Cod Ymarfer am fanylion llawn.</p>
<p>A all y casgliad gwastraff bwyd ar wahân gael ei gompostio neu ei dreulio? Beth am gasglu gwastraff bwyd gyda gwastraff gardd ar</p>	<p>Nid yw'r Cod Ymarfer yn nodi'r dull o ailgylchu gwastraff bwyd. Fodd bynnag, o dan eich dyletswydd gofal, rhaid i chi gymryd pob cam</p>

<p>safleoedd penodol ar gyfer Compostio Caeedig (IVC)?</p>	<p>rhesymol i sicrhau pan fyddwch yn trosglwyddo gwastraff i ddeiliad gwastraff arall bod y gwastraff yn cael ei reoli'n gywir drwyddo draw.</p> <p>Mae paragraffau 7.24 – 7.35 yn cynnwys mwy o fanylion am wastraff bwyd ac mae 7.36 yn nodi dyletswydd gofal.</p>
<p>A oes unrhyw gyllid ar gael i helpu i dalu am staff ychwanegol sydd eu hangen i ddioli ailgylchu yng nghefn y tŷ?</p>	<p>Nid oes cyllid ar gael i dalu am staff ychwanegol.</p>
<p>A oes rhywfaint o synergedd ag 'ailgylchu wrth fynd' ac a fydd dogfen ganllaw ac astudiaethau achos arfer gorau yn cael eu cyhoeddi?</p>	<p>Mae rhywfaint o synergedd, a byddwn yn cynhyrchu astudiaethau achos ar enghreifftiau o arfer gorau dros y misoedd nesaf.</p>
<p><b>Biniau sbwriel</b></p>	
<p>Rwy'n cynnal digwyddiadau yng nghanol trefi. Ar hyn o bryd rydym yn llogi cwmni rheoli gwastraff sy'n didoli'r gwastraff i ni ac yn monitro'r biniau canol tref presennol sy'n eiddo i'r cyngor am orlif. Beth fydd y rheolau/cyfrifoldebau ynghylch monitro'r biniau gwastraff cyffredinol hyn yng nghanol y dref wrth symud ymlaen?</p>	<p>Nid yw rheoliadau ailgylchu yn y gweithle yn berthnasol i finiau sbwriel awdurdodau lleol. (Gweler adran 4.17 o'r Cod Ymarfer).</p> <p>Trefnydd y digwyddiad fydd yn gyfrifol am reoli gwastraff y digwyddiad a bydd y gofynion gwahanu yn berthnasol. (Gweler adran 5.10 o'r Cod Ymarfer).</p>
<p>Os cynhelir digwyddiad mewn parc cyhoeddus neu ganol tref lle nad oes unrhyw reolaeth dros lif y bobl na'r niferoedd sy'n bresennol, a fydd cyfrifoldeb ar drefnydd y digwyddiad i reoli'r gwastraff mewn biniau cyhoeddus yn ogystal â'r gwastraff y mae ganddo reolaeth drosto gan fasnachwyr ac arddangoswyr.</p>	<p>Trefnydd y digwyddiad fydd yn gyfrifol am reoli gwastraff y digwyddiad a bydd y gofynion gwahanu yn berthnasol. (Gweler adran 5.10 o'r Cod Ymarfer).</p> <p>Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad fydd unrhyw finiau cyhoeddus a roddir yn eu lle fel rhan o'r digwyddiad. Bydd y trefniadau ar gyfer rheoli gwastraff o finiau (parhaol) presennol yn dibynnu ar y trefniadau sydd gennych gyda'r tîrfeddiannwr.</p>
<p>A yw marchnadoedd awyr agored yn y stryd wedi'u heithrio o'r rheoliadau newydd? Weithiau mae'r gwastraff yn gorlifo ac mae glanhawyr strydoedd yn clirio gwastraff y farchnad.</p>	<p>Mae marchnadoedd awyr agored wedi'u cynnwys yn y rhestr o enghreifftiau o safleoedd annomestig sydd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau newydd. (Gweler Atodiad 7 o'r Cod Ymarfer).</p> <p>Bydd sut mae gwastraff yn cael ei reoli yn ystod y farchnad yn rhan o'r cytundeb gyda'r tîrfeddiannwr (y cyngor fel arfer), ond mae'r rheoliadau gwahanu yn berthnasol.</p>
<p><b>Deunyddiau</b></p>	
<p>A fyddai carpedi digwyddiadau yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau newydd?</p>	<p>Na, nid yw carped ail-law wedi'i gynnwys yn y rheoliadau gwahanu. Byddai unrhyw decstilau heb eu gwerthu (gan gynnwys carped) yn dod o dan y gofyniad gwahanu.</p>

	<p>Fel tecstilau, mae carped a gesglir ar wahân yn dod o dan y gwaharddiad ar dirlenwi.</p> <p>Er nad yw'n rhan o'r rheoliadau ond gallwch ddewis ailgylchu'r gwastraff hwn drwy ddefnyddio cwmni arbenigol.</p>
<p>A oes rhaid gwahanu gwastraff bwyd yn ffrydiau llysiâu neu gig?</p>	<p>Na, mae'r rheoliadau newydd yn caniatáu i'r holl wastraff bwyd gael ei gasglu gyda'i gilydd. Fodd bynnag, bydd angen i chi wirio gyda'ch casglwr gwastraff bwyd a yw ei gyfleuster prosesu yn addas ar gyfer y math o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu.</p>
<p>Mae'r Cod Ymarfer yn hyrwyddo rhoi deunydd pacio papur wedi'i lamineiddio gyda Tetra Pak, ond nid yw Tetra Pak bob amser yn awyddus i wneud hyn. Er enghraifft, tiwbiau creision, cwpanau coffi, tybiau hufen iâ, ac ati.</p>	<p>Bydd angen trafod hyn gyda'ch contractwr gwastraff a bydd yn egluro sut mae angen i chi gyflwyno'r deunydd hwnnw i'w gasglu. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer gwahanu. Mae yna felin sy'n gallu ailgylchu'r holl eitemau hyn – cysylltwch ag ACE UK – <a href="mailto:enquiries@ace-uk.co.uk">enquiries@ace-uk.co.uk</a> y cyswllt ar gyfer pwy all ailgylchu cwpanau papur yw <a href="mailto:cuprecycling@valpak.co.uk">cuprecycling@valpak.co.uk</a></p>
<p>Allwch chi ailgylchu twb hufen iâ cardbord wedi'i ddefnyddio, neu a yw'n wastraff cyffredinol?</p>	<p>Mae angen gosod unrhyw gardbord sydd wedi'i halogi â bwyd yn y cynhwysydd ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.</p> <p>Fodd bynnag, mae twb hufen iâ yn debygol o gael ei gynnwys o dan y diffiniad 'cartonau', gan y bydd y cardbord yn debygol o gael ei lamineiddio â phlastig. Os felly, dylid ei osod gyda'r ffrwd cartonau (y gellir ei gymysgu â metelau a phlastigau).</p>
<p><b>Cyfrifoldeb</b></p>	
<p>Pan fo trydydd partïon wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau, er enghraifft bwyd a diodydd, pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am gadw at y rheoliadau? Ai'r contractwr unigol neu'r prif drefnydd digwyddiad ydyw?</p>	<p>Mae'r ddwy ochr yn gyfrifol o dan y rheoliadau newydd. Bydd trefnydd y digwyddiad yn gyfrifol am y digwyddiad yn ei gyfanrwydd, ond bydd gan feddianwyr stondinau unigol hefyd gyfrifoldeb i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu dilyn. Gellid egluro/trafod hyn mewn unrhyw gytundebau/contractau rhwng y partïon ymlaen llaw.</p>
<p>Ar gyfer digwyddiadau, fel gwyliau bwyd, ai'r trefnydd sy'n gyfrifol neu'r busnesau unigol sy'n cymryd rhan?</p>	<p>Gallech hefyd ddefnyddio'r contract/cytundeb i amlinellu syniadau a chyfarwyddiadau lleihau gwastraff ar y pecynnau gwasanaeth bwyd a diod a ffefrir i'w defnyddio.</p> <p>Bydd angen i chi hefyd roi manylion i'r stondinwyr am yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran eu gwastraff bwyd eu hunain a gynhyrchir.</p>

	<p>Mae'n bosibl, o dan y cytundeb trwydded, bod trefnydd y digwyddiad yn darparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer y digwyddiad cyfan, ond mae gan y stondinwr gyfrifoldeb o hyd i sicrhau bod y gwastraff y mae'n ei gynhyrchu yn cael ei drin yn briodol.</p>
<p><b>Casgliadau ar wahân</b></p>	
<p>Ar hyn o bryd mae ein cwmni rheoli gwastraff yn didoli ac yn gwahanu ein gwastraff. Ydy hyn yn cael ei atal?</p>	<p>Ni fydd cwmnïau rheoli gwastraff bellach yn cael casglu deunydd cymysg i'w ailgylchu; bydd yn rhaid ichi gyflwyno'ch deunydd i'w ailgylchu yn y ffrydiau penodedig, a bydd yn rhaid i'ch cwmni rheoli gwastraff ei gasglu ar wahân a'i gadw ar wahân. Mae hyn yn lleihau'r siawns o halogiad ac yn cynyddu ansawdd deunyddiau ailgylchadwy. Eglurir hyn ym mharagraffau 3.1-3.6 'Ailgylchu o Ansawdd Uchel' o'r Cod.</p>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at [WalesRecycles@wrap.org.uk](mailto:WalesRecycles@wrap.org.uk) neu [CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk](mailto:CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk).